Ymhellach, rhoddwyd clod i ragor o awdurdodau lleol am y safonau y maent yn eu darparu ar gyfer anifeiliaid trwy ein cynllun Olion Pawennau; cafwyd trafodaethau allweddol yngylch cyflwyno addysgu lles anifeiliaid yn ystafelloedd dosbarth Cymru; a gwnaed cynydd o ran cyflwyno polisiau newydd sy'n gyfeillgar i anifeiliaid a hynny'n cynnwys cyflwyno Bil ar gyfer gwahardd defnyddio anifeiliaid gwylt mewn sircasau a chyfyngiadau ar roi anifeiliaid anwes fel gwobrau.

Yn amlwg, mae 2019 wedi bod yn flwyddyn eithriadol o brysur – ac er bod y miloedd o anifeiliaid a phobl y mae ein gwaith yn dylanwadu arnynt yn rhy niferus i'w crybwyl yn unigol, i RSPCA Cymru, mae lles pob rhywogaeth yn parhau i fod o'r pwys mwyaf wrth i ni geisio meithrin gwlaid sydd mor garedig a thosturiol â phosib i'n cyd-greaduriaid byw.



Chris Sherwood
Prif Weithredwr RSPCA

Ar y rheng flaen dros anifeiliaid

Mae swyddogion yr RSPCA ar y rheng flaen dros anifeiliaid 24 awr y dydd – bob dydd o'r flwyddyn, gan ymateb i 50,000 o alwadau bob blwyddyn o fewn Cymru ei hun. Mae'r rhain yn cynnwys galwadau brys ar ddydd Nadolig hefyd gan nad yw anghenion anifeiliaid y wlad yn stopio dros nos nac ar wyliau cyhoeddus.

Mae swyddogion yr RSPCA yn cyflawni swydd unigryw a heriol – gydag arolygwyr, swyddogion lles anifeiliaid, swyddogion casglu anifeiliaid a gwirfoddolwyr anafusion bywyd gwylt oll yn ysgwyddo rolau creiddiol wrth ymateb i gŵynion, ac wrth achub a chludo anifeiliaid.

Mae'r swyddogion wedi'u rhannu yn dri grŵp Arolygiaeth – y Gogledd a'r Canolbarth, y De Ddwyrain ac yn drydydd y De Orllewin – a rhaid iddynt ymateb i argyfyngau yng nghanolfannau trefol Cymru yn ogystal â'r lleoliadau mwyaf anghysbell. Er mwyn achub, mae swyddogion yr RSPCA wedi gorfol mynd i leoliadau amrywiol, heriol ac yn aml yn beryglas – gan gynnwys achub mochyn daear mewn maes tanio milwrol, a dwsinau o ddefaid o glogwyni lan y môr.

Ac eto, mae'r achubiadau trawiadol hyn yr un mor bwysig â'r ymatebion mwy arferol i ddigwyddiadau fel cŵn wedi'u gadael neu anifeiliaid anwes wedi'u trin yn wael. Cyfrannodd yr holl ymdrechion hyn at achub a chasglu 8,294 o anifeiliaid yng Nghymru yn 2019.

8,294 o anifeiliaid
wedi'u hachub yng
Nghymru.²

40 o swyddogion ac
arolygwyr gan yr RSPCA
yng Nghymru.

50,000 o alwadau
i'r RSPCA bob blwyddyn.



ACHUB O FAES TANIO'R FYDDIN

Cafodd mochyn daear ei achub ar ôl cael ei hun yn sownd mewn lleoliad peryglas ar faes tanio byw milwrol yng Nghil-y-coed, Sir Fynwy. Roedd y mochyn daear wedi syrrthio rhyw 1.5m i lawr pwll concrit ar weundiroedd Rogiet. Defnyddir y pyllau fel arfer gan bersonél milwrol i danio allan ohonynt. Llwyddodd swyddog yr RSPCA i afael yn y mochyn daear gyda theclyn dal, cyn ei ryddhau i'r gwylt mewn lleoliad diogel gerllaw. Yn ffodus, nid oedd y mochyn daear wedi dioddef unrhyw anafiadau neu broblem lles.

ACHUB CATH FACH O GREIGIAU'R MÔR

Achubwyd cath fach bedair wythnos oed mewn caethgyfle ar ôl iddi fynd yn sownd yng nghanol clogfeini mawr ar y morglawdd ar draeth Towyn. Daeth RSPCA Cymru i wybod amdani ar ôl i aelodau'r cyhoedd ei chlywed yn mewian. Gwnaeth swyddogion dri ymweliad â'r safle er mwyn ceisio cyrraedd y gath fach gan fod angen offer ychwanegol i symud creigiau. Yn y pen draw, llwyddodd Arolygydd yr RSPCA, Mark Roberts, i achub y gath fach drwy ddefnyddio gafaelwr cath.

Rhoddodd swyddogion yr RSPCA yr enw Rocky ar y gath fach yn gyntaf, ond cafodd ei hainenwi yn Pebbles yn ddiweddarach ar ôl yr ymgyrch achub arwrol. Rhoddwyd Pebbles yng ngofal teulu maethu maes o law.



² (yn seiliedig ar Ion-Hyd 6,912 – amcangyfrifwyd Tach-Rhag).



YMGYRCH FAWR I ACHUB DEFAID

Cwblhaodd timau arbenigol yr RSPCA ymgrych achub gymhleth i nôl 65 o ddefaid a oedd yn sownd ar glogwyni ger y môr ym Mathri, Sir Benfro ym mis Ebrill. Disgrifiwyd yr ymgrych achub yn un "hynod dechnegol" ac roedd yn cynnwys timau arbenigol achub â rhaff yr RSPCA, dau dim cychod yr RSPCA ac arbenigwr rhaffau achub mynydd. Llwyddwyd i achub y 65 dadaf a oedd wedi mynd yn sownd ar glogwyni tua 70-80 metr o uchder ac wedi gwsgaru mewn grwpiau dros ardal eang. Credwyd bod ci wedi dychryn y ddiadell fawr dros y clogwyni.

Dyweddodd Prif Arolygydd yr RSPCA ar gyfer grŵp y De Orllewin, Romain de Kerckhove: "Roedd hwn yn achub heriol iawn, ac mi gymerodd grym amser i sicrhau diogelwch y defaid. Oherwydd y tywydd anodd, wyneb agored y clogwyn serth, ynghyd â chynifer o anifeiliaid, roedd hi'n dasg anodd tu hwnt i'n swyddogion.

"Rydym yn achub defaid yn aml, ond ddim ar y raddfa hon fel arfer! Roedd hi'n ymgrych unigryw a hoffem ddiolch i bawb a roddodd gymorth i sicrhau canlyniad llwyddiannus i'r anifeiliaid hyn a hwythau mewn angen."



Atal creulondeb ac amddiffyn anifeiliaid

Erlyn yn aml yw'r dewis olaf i'r RSPCA – ac yn 2019 cafwyd gostyngiad canrannol amlwg yn ein herlyniadau yng Nghymru a hynny ar ôl cynnydd bob blwyddyn ers 2015. Serch hynny, yn 2019 roedd yr RSPCA wedi cael 122 o euogfarnau llwyddiannus mewn llysoedd ynaden am droseddau o dan y Ddeddf Lles Anifeiliaid (2006). Mae ffocws yr RSPCA yn parhau i fod ar roi cyngor ac arweiniad lles allweddol i helpu perchnogion – ac roedd nifer yr hysbysiadau cyngor a lles a roddwyd gan swyddogion yr RSPCA yn llawer, llawer mwy na nifer yr euogfarnau oherwydd rhoddwyd o leiaf 36 hysbysiad am bob un euogfarn. Fodd bynnag, ar brydiau, nid oes llawer o ddewis ond erlyn – ac mae troseddau bywyd gwylt bwriadol, ymosodiadau pwrrpasol gan droseddwyr ieuencid, ac esgeulustod difrifol o anifeiliaid anwes oll wedi bod yn y llys yn ystod 2019.

ATAL CREULONDEB

● Cwynion yr ymchwiliwyd iddynt yng Nghymru	7,197³
● Euogfarnau a gafwyd*	122⁴
● Diffynyddion a gafwyd yn euog (gan gynnwys dau berson ifanc)	60
● Troseddwyr a gafodd rybudd	38
● Hysbysiadau cyngor a lles a roddwyd	4,392



CŴN WEDI'U HACHUB YN DOD O HYD I GARTREF GYDA'I GILYDD

Daethpwyd o hyd i ddu gi ifanc, un wedi'i glymu'n dynn a'r llall mewn cawell, ond bellach maent yn mwynhau bywyd gyda'i gilydd mewn cartref newydd yng nghefn gwlad. Cafwyd hyd i Lady, croes-ddaeargi tarw Stafford, yn gorwedd fel pelen ar y llawr, wedi'i chlymu ar dennyn byr i lifft grisiau. Roedd hi'n hynod denau, yn crynu ac yn hynod nerfus ac ar y dechrau roedd yr Arolygydd yn pryderu na fyddai hi hyd yn oed yn gallu sefyll.

Cafwyd hyd i Bruno, ci tarw Ffrengig, wedi'i gloi mewn cawell cŵn budr heb ddŵr na dillad gwely. Roedd yn eistedd yn ei faw ei hun, roedd ei ewinedd wedi gordyfu a'i gôt wedi'i staenio ag wrin.

Daeth milfeddyg annibynnol i'r casgliad bod Lady wedi dioddef ac nad oedd anghenion Bruno wedi cael eu diwallu. Roedd Lady yn amlwg ar ei chythlwng pan gafodd rywbeth i'w fwyta ac i yfed yn y filfeddygfa.

Ar ôl gofal a diet arbennig i fagu pwysau, ailgartrefwyd Lady a Bruno gyda theulu gofalgar a fydd yn rhoi'r bywyd y maent yn ei haeddu iddynt.

Cafodd y percheneg ei wahardd rhag cadw pob anifail am bum mlynedd; rhoddwyd dirwy o £180 iddo a gorchymyn i dalu costau o £400.



³ Ion-Hyd = 5,999, ynghyd ag amcangyfrifon cyfartalog ar gyfer Tach/Rhag yn sgil newid mawr mewn dulliau a meddalwedd adrodd.

⁴ Mae'r rhain yn euogfarnau a gafwyd o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid (2006). Cafwyd 20 euogfarn arall hefyd a oedd yn gysylltiedig â deddfwriaethau eraill.

RHOI GOFAL AC ADDYSG I DROSEDDWYR IFANC

Pan erlynwyd dau berson ifanc yn eu harddegau am weithred o drais diangen ac eithafol, roedd rhan o’u dedfryd yn cynnwys cael eu hatgyfeirio i fenter yr RSPCA sydd wedi’i gynnal gan dimau trosedd ieuenciad gyda’r nod o helpu pobl ifanc i weld effaith creulondeb ar anifeiliaid.

Roedd dau lanc ifanc yn eu harddegau wedi dwyn iâr ddomestig o ardd cyn lladd yr aderyn mewn ymosodiad hir a threisgar. Aethant â’r iâr, or’ enw Delila, allan o’i chwt, ei lapio mewn siaced a mynd i dî ffrind. Yno fe ymosododd y ddau ar Delila – ei chicio, ei tharo, a’i llosgi, cyn ei lladd. Er i filfeddyg ddisgrifio’r digwyddiad fel “artaith ddireswm” a chadarnhau y byddai’r aderyn wedi dioddef “poen annisgrifiadwy”, roedd cyfweliad yr heddlu â’r bechgyn yn ymwned â dwyn yr iâr yn unig. Fodd bynnag, ymchwiliodd yr RSPCA i’r mater fel trosedd lles anifeiliaid.

Dedfrydwyd y ddau lanc – 15 ac 16 oed – i orchymyn atgyfeirio 12 mis, a hynny’n cynnwys cymryd rhan yn rhaglen ymyrraeth yr RSPCA ‘Torri’r Gadwyn⁵. Clywodd y llys fod y ddau fachgen bellach yn ystyried y digwyddiad yn wrthun, a siaradodd y ddau eu hunain yn y llys i ymddiheuro. Cafodd y llanciau hefyd eu gwahardd rhag cadw pob anifail am flwyddyn a’u gorchymyn i dalu costau o £200.



LLADD GWYLANOD

Cafwyd dau achos difrifol o niweidio gwylanod yn fwriadol yn 2019. Roedd un achos yn ymwned â lladd gwylan gefnddu leiaf gan ddyn a oedd wedi mynd i lan y môr am ddiwrnod allan. Gwelodd tystion ef yn dal y wylan wrth ei choes a’i tharo yn erbyn wal, gan ei lladd. Cafodd ei weld yn ddiweddarach yn chwerthin am y digwyddiad. Mae gwylanod yn cael eu gwarchod o dan adran 1 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 – a’r dyn wedi cyflawni trosedd trwy ladd yr aderyn gwylt.

Cafodd ei ddedfrydu i gyrrfyw 12 wythnos a’i orchymyn i dalu costau o £750. Mewn ail achos cafodd dyn ei garcharu am ymosod ar wylan. Cofnododd lluniau teledu cylch cyfyng y dyn yn ei sathru a’i chicio, a bu farw’r wylan o ganlyniad i’w weithredoedd. Lanswyd apêl gan yr RSPCA am wybodaeth, ac yn y pen draw aethpwyd â’r dyn i’r llys a’r ynaden yno wedi’i ddedfrydu i garchar am 12 wythnos a hynny i ddigwydd ar unwaith.

⁵ <https://education.rspca.org.uk/education/youthintervention/resources>

Paratoi at fywyd newydd

Canghennau yn gweithredu'n lleol

Mae llawer o waith uniongyrchol ar les anifeiliaid yn cael ei wneud trwy rwydwaith canghennau'r RSPCA. Mae'r rhain yn elusennau sydd wedi'u cofrestru ar wahân, gan gwmpasu Cymru gyfan, ac yn cael eu rhedeg bron yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr sy'n neilltuo rhannau helaeth o'u hamser yn cefnogi anifeiliaid lleol ac yn hyrwyddo achos lles anifeiliaid. Mae pob cangen yn gwasanaethu cymuned leol, gan gynnig gwasanaethau amrywiol sy'n cynnwys rhoi cyngor, cynorthwyo â chostau microsglodynnu ac ysbaddu, a gofalu am anifeiliaid. Yn ogystal, mae rhai canghennau yn ailgartrefu anifeiliaid trwy ganolfan anifeiliaid neu rwydwaith o gefnogwyr sy'n maethu neu'n cynnig llety i anifeiliaid. Yn ystod 2019, cofnododd canghennau yng Nghymru 9,692 o achosion o roi cymorth â lles yn ogystal ag ailgartrefu 1,044 o anifeiliaid.

Gofalu am anifeiliaid a'u hailgartrefu

Mae angen cyfnod o ofal dwys, adsefydlu a thriniaeth ar lawer o'r anifeiliaid sy'n cael eu hachub gan Arolygiaeth yr RSPCA cyn iddynt fynd ymlaen i gael eu hailgartrefu o un o'n canolfannau anifeiliaid.

Rydym yn ymfalchio yn ein perthynas waith agos gyda'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru, ond mae gennym hefyd ein clinig milfeddygol RSPCA ein hunain ym Merthyr Tudful. Mae dwy swyddogaeth i'r clinig hwn, sef darparu gofal brys i anifeiliaid sâl neu wedi'u hanafu sy'n cael eu hachub gan swyddogion yr RSPCA, a chynnig cymorth cost isel i anifeiliaid anwes sy'n perthyn i bobl leol sydd ar incwm isel neu fudd-daliadau. Yn 2019 rhoddodd Clinig Milfeddygol Merthyr Tydfil driniaeth i 3,272 o anifeiliaid, gan gynnwyl 5,001 o awpyntiadau cleifion allanol a 1,304 diwrnod o ofal i gleifion mewnol.

Mae RSPCA Cymru yn gweithredu dwy ganolfan anifeiliaid yng Nghymru – sef Bryn-y-Maen ym Mae Colwyn Uchaf, a Chanolfan Anifeiliaid Casnewydd. Mae'r canolfannau arbenigol hyn yn blaenoriaethu anifeiliaid

wedi'u hachub gan yr RSPCA – ac felly'n aml yn rhoi bywyd newydd i anifeiliaid sydd wedi dioddef esgeulustod eithafol, creulondeb neu gamdriniaeth. Yn ogystal, y tu mewn i Pets at Home yng Nghasnewydd, mae'r RSPCA hefyd yn gweithredu'r ganolfan mabwysiadu anifeiliaid gyntaf un yng Nghymru – gan roi cyfre gwych i gathod sydd wedi'u hachub gael eu gweld gan y cyhoedd. Cyn cael eu hailgartrefu, bydd anifeiliaid anwes hefyd yn cael eu brechu, eu hysbaddu a'u microsglodynnu ac weithiau bydd yr anifeiliaid yn treulio amser gyda'n tim ymroddedig o ofalwyr maeth i'w helpu i baratoi at eu cartref newydd parhaol.

Yn 2019, ailgartrefwyd 933 o anifeiliaid gan y canolfannau anifeiliaid cenedlaethol hyn; pob un a'i stori unigryw ei hun i'w hadrodd. Yn ystod 2019, ailgartrefodd canghennau'r RSPCA a'r canolfannau anifeiliaid cenedlaethol gyfanswm o 1,977 o anifeiliaid – gan gynnig bywyd newydd a dechrau newydd i anifeiliaid sy'n aml wedi dianc o sefyllfaedd anodd iawn.

ASTUDIAETHAU ACHOS CASNEWYDD A BRYN-Y-MAEN

Roedd deg ci bach wedi cael eu gadael yn ddiyngleidd mewn bocs plastig yng Nghasnewydd fis Ebrill diwethaf, a rhoddwyd gofal iddynt yng Nghanolfan Anifeiliaid Casnewydd yr RSPCA. Brid y cŵn bach oedd daeargi tarw Stafford a chawsant eu henwi ar ôl cymeriadau Pokémon, megis Pikachu, Eevee, Flareon, Vulpix a Jiggly Puff. Daethpwyd o hyd i gartref oes i bob un ohonynt.



Hefyd, yn ôl ym mis Ebrill, agorwyd ysgubor amlbwrpas newydd yn swyddogol yng Nghanolfan Anifeiliaid Bryn-y-Maen yr RSPCA. Cynhaliwyd Diwrnod Agored i agor yr ysgubor gan Gyfeillion Bryn-y-Maen, a'r diwrnod hefyd wedi cynnwys digwyddiad codi arian arbennig, sef y cynorthwydd gofalu anifeiliaid Abbie Griffith yn eillio'i gwallt i godi arian i'r ganolfan!



ASTUDIAETHAU ACHOS CANGHENNAU



Yn ystod 2019 daeth cyfnod un o hoelion wyth ymroddedig yr RSPCA i ben fel cadeirydd cangen, ar ôl 37 mlynedd.

Roedd Tudor Jones wedi bod yn gadeirydd Cangen RSPCA Gogledd a Dwyrain Morgannwg ers 1982. Rhoddwyd fâs wedi'i hengraffio i Tudor am ei ymrwymiad i'r gangen dros y degawdau, wedi'i gyflwyno iddo gan is-gadeirydd y gangen, Paul Smith sydd wedi camu i esgidiau Tudor.

"Mae Tudor yn berson eithaf anhygoel ac yn ymroddedig iawn i les anifeiliaid ac yn teimlo'n gryf yn erbyn creulondeb anifeiliaid," meddai Paul.

Cyhoeddodd Cangen RSPCA Clwyd a Cholwyn eu bod ar fin ehangu eu clinig lles anifeiliaid yn y Rhyl.

Yn sgil prynu adeilad cyfagos, y nod yw datblygu eu clinig yn Stryd Vaughan i gynnig mwy o wasanaethau i'w cleientiaid, sydd wedi cyrraedd tua 3,500 o berchnogion anifeiliaid anwes erbyn hyn.

Dyweddodd trysorydd y gangen Sylvia Moss: "Rydym yn llawn cyffro ynghylch ehangu ein clinig lles anifeiliaid yn y dyfodol, bydd yn cynnig gwasanaethau gwych."

"Mae ein clinig yn ffynnu ac rydym yn falch iawn o'r rhan sydd ganddo yn y gymuned leol."



Yn ogystal, ym mis Rhagfyr cyhoeddwyd y byddai Clinig Lles Anifeiliaid Symudol y Gogledd yn gweithredu yn Wrecsam. Mae'r clinig milfeddygol symudol yn cael ei redeg gan bum cangen yr RSPCA, sef Cangen Aberconwy, Cangen Ynys Môn, Cangen Clwyd a Cholwyn, Cangen Gorllewin Gwynedd a Changen Ardal Wrecsam a Glannau Dyfrdwy – ac fe gaiff ei ariannu'n gyfan gwbl gan roddion ac ymdrechion codi arian y gwirfoddolwyr. Dywedodd un gwirfoddolwr sy'n swyddog digwyddiadau ar gyfer Cangen RSPCA Ardal Wrecsam a Glannau Dyfrdwy, Dylan Evans: "Mae'r clinig wir yn gwneud gwahaniaeth i berchnogion anifeiliaid anwes sy'n ei chael hi'n anodd talu biliau milfeddyg ac rydym yn falch iawn o fod yn rhan o ddod â'r gwasanaeth hwn i bobl Wrecsam a Glannau Dyfrdwy."



ASTUDIAETH ACHOS MERTHYR

Y llynedd rhoddodd y clinig – a agorodd yn 2005 – driniaeth i'w 30,000fed anifail.

Daeth dwy hwyaden i ofal RSPCA Cymru – un hwyaden fwsg (muscovy) ac un hwyaden Indiaidd wen – a'r ddwy wedi cael asesiad iechyd llawn gan y clinig. Cafodd y ddwy eu barnu i fod yn iach ac yn addas i'w hailgartrefu.

Dyweddodd yr uwch glinigwr Jon Fitzmaurice: "Un o'r hwyaid hyn oedd y 30,000fed stori

y gall ein clinig ei hadrodd, ac rydym wrth ein bodd fod gennym ddiweddglo hapus arall. Byddwn yn parhau i fod yma i roi triniaeth filfeddygol, gofal brys, ysbaddu, microglodynnau a llawer mwy i wneud Merthyr a De Cymru yn lle gwell i anifeiliaid."

Yn 2019 roedd y clinig hefyd yn falch iawn o dderbyn offer pelydr-X newydd, gwerth bron i £10,000, wedi'i ariannu'n hael gan Gangen RSPCA Gogledd a Dwyain Morgannwg.



Addysg i atal

Mae tim addysg yr RSPCA o'r farn ei bod yn ddyletswydd ar yr RSPCA i ganolbwyntio cymaint ar atal creulondeb ag y mae ar ddelio â chanlyniadau heriol creulondeb. Mae addysg yn allweddol i helpu pobl i ddeall anghenion anifeiliaid, dysgu eu bod yn fodau ymdeimladol a bod gennym ni oll gyfrifoldeb tuag at yr holl anifeiliaid yn ein cymdeithas. Dyna pam y lansiwyd Cenhedlaeth Garedig gennym yn ddiweddar – sef casgliad o brosiectau uchelgeisiol, arloesol i feithrin caredigrwydd a thosturi mewn plant tuag at bob anifail. Drwy addysgu a chefnogi pobl sydd angen ein help, gallwn helpu miliynau o anifeiliaid fyw bywyd heb orfod dioddef, gan greu dyfodol sydd wir yn garedig i anifeiliaid.

Dosbarth Tosturiol

Dyfarnwyd mai dosbarth Blwyddyn 3 yn Ysgol Gymraeg Coed y Gof oedd Dosbarth Mwyaf Tosturiol 2019 ledled Cymru a Lloegr. Gwnaeth yr ysgol hon yng Nghaerdydd argraff dda ar feirniaid gyda'u hanimeiddiad Cymraeg a oedd yn ymgorffori nifer o negeseuon allweddol am les anifeiliaid. Roedd tua 700 o ysgolion wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth o bob rhan o Gymru a Lloegr.

Mae Dosbarth Tosturiol yn mynd ati'n rhngweithiol, yn seiliedig ar drafodaethau, i ddatblygu llythrennedd emosiynol ac i ystyried anghenion lles anifeiliaid – ac mae'n rhan allweddol o Genhedaeth Garedig. Mae'r adnoddau achrededig hyn gan Gymdeithas PSHE wedi'u cynllunio i roi profiad dysgu cyffrous yn ogystal â chefnogi ysgolion i gyflwyno addysg ysbyrdol, foesol, gymdeithasol a diwlliannol ar gyfer plant 7–11 oed.

Trwy gyfres o weithgareddau yn seiliedig ar ymchwilio, mae plant yn ystyried beth yw ystyr bod yn dosturiol, yn dod i ddeall anghenion gwahanol fathau o anifeiliaid, ac yn cydweithio i ddatblygu sgliau empathi ar gyfer eu bywydau ysgol a thu hwnt.

291 o ofalwyr maeth pobl ifanc wedi ymgysylltu â ni trwy sesiynau Torri'r Gadwyn, diwrnodau Gweithredu dros Anifeiliaid, a phresenoldeb mewn cynadleddau gofalwyr maeth.

Cymerodd **35 o blant** ran mewn Diwrnodau Gweithredu dros Anifeiliaid – yn dilyn cael eu hatgyfeirio gan weithwyr cymdeithasol. Mae'r dyddiau hyn wedi'u targedu'n benodol iawn i ddatblygu empathi a hunan-barch ymhlið pobl ifanc, a hynny trwy brism edrych ar les anifeiliaid a rhngweithio cadarnhaol ag anifeiliaid.

Derbyniodd **4484 o ddisgyblion ysgolion uwchradd** fanylion y Ddadl Fawr gan ein Cynghorydd Addysg ac Atal Cenedlaethol.

Cymerodd **21 o ysgolion** ran yn rhagbrofion rhanbarthol y Ddadl Fawr ledled Cymru.

Daeth **33 o athrawon dan hyfforddiant** i weithdai rhngweithiol i athrawon er mwyn codi ymwybyddiaeth am bum angen lles anifeiliaid, gan fod â'r potensial i gyrraedd dros 900 o blant.



Y Ddadl Fawr

Parhaodd rhaglen y Ddadl Fawr i dyfu yn 2019, gyda'r nifer uchaf erioed o ysgolion wedi cymryd rhan. Mae'r cysyniad yn rhan annatod o fenter Cenhedlaeth Garedig yr RSPCA. Mae'r gystadleuaeth yn agored i ysgolion ledled y wlad, ac yn rhoi cyfle i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3 ystyried a thraffod llu o bynciau moesegol yn ymwnud â lles anifeiliaid – gan feithrin sgiliau allweddol mewn ymchwil, pwysa a mesur, a chyfathrebu.

Cystadloedd 22 tim o 21 ysgol mewn pum rhagbrawf ledled Cymru – gyda Bryn Celynnog (Beddau), Ysgol y Gadeirlan (Caerdydd), Cardinal Newman (Rhydyfelin), Ysgol Gyfun Aberdaugleddau, Ysgol Coedcae (Llanelli) ac Ysgol Tryfan (Bangor) yn mynd ymlaen i'r rownd derfynol fawr a gynhalwyd yn Senedd Cymru ym mis Mehefin. Bryn Celynnog ddaeth i'r brig ym marn y beirniaid.

Roedd yr adborth a gafwyd yn gadarnhaol dros ben:

- Dywedodd 94% o athrawon y byddent yn rhoi mwy o bwyslais ar les anifeiliaid yn eu haddysgu o ganlyniad i gymryd rhan
- Dywedodd 100% fod y ddadl wedi'i hanelu at yr oedran a'r gallu cywir
- Roedd 89% o'r farn bod efelychu dadl go iawn yn ddefnyddiol fel rhan o'u rhaglen addysgu



Dyma'r hyn yr oedd gan yr athrawon i'w ddweud am ein rhaglen:

- "Diwrnod difyr a gwerthfawr iawn i fyfyrwyr."
- "Diolch yn fawr am ddigwyddiad mor drefnus a gwych. Cafodd ein myfyrwyr amser bendigedig ac wedi dysgu llawer o'r profiad."
- "Ni allaf ddiolch digon i chi am roi'r cyfle hwn nad yw ein myfyrwyr yn ei gael yn aml. Mae mor hanfodol i wella cyfathrebu a hyder. Diolch i chi eto."
- "Fe roddodd well dealltwriaeth i'r myfyrwyr o sut mae dadl yn gweithio. Mae pob cyfle fel hyn yn bwerus iawn."
- "Mae'r myfyrwyr wedi cael llawer i gnoi cil drosto."

Rhoi llais i anifeiliaid yn 2019

Gan fod cynifer o faterion lles anifeiliaid hanfodol yn ennyd diddordeb y cyhoedd, rhaid i'n hymgyrchwyr ni roi llais i anifeiliaid trwy ysgogi ein cefnogwyr i gymryd camau ystyrlon ar y materion pwysicaf.

Yn 2019, diolch i ymgrych lwyddiannus ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn y wasg, cymerodd 1,605 aelod o'n rhwydwaith cefnogwyr yng Nghymru gamau yn ein hymgyrch Tân gwylt #BangOutOfOrder, sy'n ceisio lliniaru'r peryglon i anifeiliaid anwes, gwylt a fferm a lleihau gwerthu Tân gwylt a defnydd anghyfrifol arno. Ar ôl y lansiad ym mis Hydref 2019, Wrecsam oedd yr awdurdod lleol cyntaf i weithredu a chefnogi ein hymdrehigion ym mis Rhagfyr, gyda thri awdurdod lleol arall yn gwneud yr un peth yn gynnar yn 2020.



Fe wnaethom hefyd gyflwyno ein hymgyrch trwyddedu cŵn newydd, #fetchyourlicence yn ein digwyddiad blynnyddol yn mynd â chŵn am dro, sef Big Walkies Live. Daeth dros 400 o bobl yno, a chafwyd sgyrsiau ystyrlon yngylch sut beth fyddai cynllun trwyddedu cŵn newydd yng Nghymru. Defnyddiodd dros 50 o gefnogwyr ein ffrâm trwydded cŵn enfawr i dynnu hunlun.



Yn 20fed digwyddiad blynnyddol Pride Cymru, buom yn brysur yn annog cefnogwyr a mynchywyr digwyddiadau i sefyll gyda ni yn y frwydr i roi diwedd ar ddeddfwriaeth sy'n benodol ar gyfer rhai bridiau. Gyda ffrâm hunlun pwrpasol a ofynnai "Ydyn ni'n edrych yn beryglus i chi?", tynnwyd dros 70 o hunluniau ac ysgogwyd sgyrsiau dirifedi yngylch y pwnc.

Fe wnaethom hefyd lansio ein prosiect newydd, Siarter Lles Anifeiliaid. Datblygywd hwn fel cynllun i gydnabod y gweithredoedd da a wneir gan y gymuned fusnes ffyniannus a'r gymdeithas ddinesig ledled Cymru, a'r Siarter yn annog y gred bod caredigrwyd yn dda i fusnes. Yn 2019, agorwyd ymgynghoriad cyhoeddus i'r Siarter, ac rydym wedi ymgysylltu ag arweinwyr a chysylltiadau allweddol ym maes gwasanaethau manwerthu, lletygarwch a busnes. Ymhlið yr ymatebion mae rhai gan John Lewis a'i Bartneriaid, Spindogs, a Gwesty Brenhinol Caerdydd.



Gweithio i gael newid

Unwaith eto, yn ystod 2019 gweithiodd yr RSPCA yn agos gyda phenderfynwyr a rhanddeiliaid i sicrhau newid cadarnhaol i anifeiliaid, gan weithio gyda phob haen llywodraeth a gyda phleidiau gwleidyddol o bob rhan o'r sbectrwm.

Mae gwaith rhagweithiol gydag awdurdodau lleol wedi golygu bod RSPCA Cymru wedi rhoi dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i nifer o awdurdodau lleol; gyda llawer yn cefnogi cynigion neu safbwytiau polisi arfaethedig yr RSPCA ar lu o fesurau, gan gynnwys lliniaru peryglon tân gwylt i anifeiliaid, defnyddio anifeiliaid anwes fel gwobrau a bridio cŵn. Yn ogystal, o'r diwedd, arweiniodd blynnyddoedd o lobio at gyhoeddi Bil a fydd yn y pen draw yn gwahardd defnyddio anifeiliaid gwylt mewn syrcasau yng Nghymru. Mae RSPCA Cymru hefyd wedi amlinellu sut y gall awdurdodau addysg lleol ac ymarferwyr addysgu ddefnyddio hyblygrwydd y cwricwlwm newydd i ddysgu am les anifeiliaid yn yr ystafell ddosbarth.

Mae RSPCA Cymru hefyd yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio gydag elusennau eraill i sicrhau newid cadarnhaol, ac mae aelodaeth y Gymdeithas ar bwylgor rheoli Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru yn ganolog i hyn. Cydweithiodd yr RSPCA gydag elusennau a grwpiau buddiant eraill i ddiweddarau cod ymarfer statudol er lles cathod, ynghyd â llunio cod ymarfer gwirfoddol yn ymwneud â lles milgwn rasio – gyda'r ymdrechion cydweithredol hyn yn rhoi cyngor hanfodol a all helpu i drawsnewid sut y gofalir am anifeiliaid yng Nghymru.

Yn gyfan gwbl, dros y flwyddyn, cyhoeddodd RSPCA Cymru 21 o ddogfennau briffio ac ymatebion ymgynghori i randdeiliaid gwleidyddol i helpu i ddylanwadu, siapio a llywio penderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar anifeiliaid, ac mae'r rhain oll ar gael ar wefan PoliticalAnimal yr RSPCA ar gyfer penderfynwyr, gwleidyddion, eu staff a rhanddeiliaid allweddol eraill.



Olion Pawennau

Cafodd y nifer fwyaf erioed o sefydliadau eu cydnabod gan yr RSPCA yn 2019 fel rhan o'r cynllun Olion Pawennau. Dyma'r unig raglen sy'n cydnabod arfer da gan gyrrff cyhoeddus mewn perthynas â lles anifeiliaid – gydag awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, heddluoedd ac eraill wedi dod ynghyd mewn seremoni arbennig yn y Senedd i dderbyn clod gan Lesley Griffiths AC, sef Gweinidog Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am les anifeiliaid. Roedd Cyngor Dinas Casnewydd yn un o enillwyr mawr 2019 – gan gael eu clodfori am eu dull arloesol o greu lle chwarae diogel i gŵn sydd wedi dod i ofal yr awdurdod lleol.

GWOB	LEFEL	SEFYDLIAD
Arloeswr		Cyngor Dinas Casnewydd
Gwob Cydnabyddiaeth Arbennig		Tim Troseddau Cefn Gwlad Gogledd Cymru
Trwyddedu Gweithgarwch Anifeiliaid	Efydd	Cyngor Sir Ddinbych
Trwyddedu Gweithgarwch Anifeiliaid	Efydd	Cyngor Sir Penfro
Trwyddedu Gweithgarwch Anifeiliaid	Arian	Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (SRS)
Cynlluniau Wrth Gefn	Aur	Cyngor Sir Fynwy
Cynlluniau Wrth Gefn	Efydd	Cyngor Dinas Caerdydd
Tai	Efydd	Cymdeithas Tai Merthyr Tudful
Tai	Efydd	Cartrefi Cymoedd Merthyr
Tai	Efydd	Cymdeithas Tai Rhondda
Tai	Efydd	Cartrefi Cymunedol Gwynedd
Tai	Efydd	Cymdeithas Tai Clwyd Alyn
Tai	Arian	Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru
Cŵn mewn Cenol	Efydd	Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir
Cŵn mewn Cenol	Arian	Cartref Cŵn Caerdydd
Cŵn mewn Cenol	Aur	Hope Rescue
Cŵn Strae	Efydd	Cyngor Sir Ynys Môn
Cŵn Strae	Arian	Cyngor Sir Penfro
Cŵn Strae	Aur	Cartref Cŵn Caerdydd
Cŵn Strae	Aur	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cŵn Strae	Aur	Cyngor Sir Ddinbych
Cŵn Strae	Aur	Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir
Cŵn Strae	Aur	Cyngor Dinas Casnewydd
Cŵn Strae	Aur	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cyfathrebu'r materion allweddol

Mae cyfathrebu â'r cyhoedd yn hollbwysig i hyrwyddo negeseuon allweddol am les anifeiliaid ac i roi gwybod am y gwaith unigryw y mae'r RSPCA yn ei wneud ledled y wlad.

Mae sylw ar-lein, mewn papurau wedi'u hargraffu, ar y teledu a'r radio yn dal i fod yn un o'r arfau mwyaf pwerus sydd ar gael i'r RSPCA i hyrwyddo gwaith ei swyddogion ac arolygwyr. Cyhoeddwyd cyfanswm o 272 o ddatganiadau rhagweithiol i'r wasg gan RSPCA Cymru yn 2019, a hynny wedi arwain at filoedd o drawiadau ar-lein a modfeddi colofnau yn y wasg.

Cafwyd sawl ymddangosiad yn ystod oriau brig y teledu hefyd i hyrwyddo'r gwaith hwn yn ystod y flwyddyn, a hyrwyddo materion lles anifeiliaid yn gyffredinol. Mae'r rhain wedi cynnwys *Crimewatch Live, Caught on Camera* a rhaglen BBC Wales X-Ray. Roedd ITV News wedi cynnwys eitem arbennig am gŵn yn marw mewn ceir poeth ar eu bwletinau newyddion gyda'r nos, lle roedd Chris O'Brien o'r RSPCA yn 'teimlo'r gwres' y tu mewn i gar wedi'i gloi, yn eistedd ochr yn ochr â newyddiadurwr ITV chwyslyd.

Gwelwyd pŵer y cyfryngau wrth helpu'r RSPCA i gyfathrebu materion allweddol hefyd yn sgil rhaglen y BBC yn datgelu safonau bridio cŵn yng Nghymru, a hynny wedi cynorthwyo i gadw ffermio cŵn bach ar frig yr agenda a phwysleisio pwysigrwydd galwadau'r RSPCA ers amser maith i'r diwydiant.

Tyfodd sianeli cyfryngau cymdeithasol RSPCA Cymru yn fawr trwy gydol 2019 gyda Facebook yn cyrraedd 20,981 o bobl yn ei hoffi erbyn diwedd y flwyddyn – cynnydd o 24.1% ar y flwyddyn flaenorol. Mae Twitter ac Instagram yn parhau i fod yn ddefnyddiol ar gyfer ymgysylltu a hyrwyddo, tra bod YouTube wedi dod yn llyfrgell i'r nifer fawr o fideos a ryddhawyd fel rhan o waith cyfryngau'r Gymdeithas.

Astudiaethau achos



Rhoddodd Arolygydd yr RSPCA, Gemma Cooper, gyfweliad i *Caught on Camera* ar ôl i ddyn gael ei ddal ar deledu cylch cyfyng yn fwriadol yn taflu dwy gwningen ar ochr ffordd – ac yna yn gyrru i ffwrdd a gadael y cwt ar ôl. Anfonwyd y dyn i'r carchar a'i wahardd rhag cadw

anifeiliaid am 10 mlynedd. Cafodd yr achos hwn sylw ar lefel leol a'r DU. Cyrhaeddodd postiad ar Facebook **142,037 o bobl** gyda **52,466 yn ymateb**. Yn ogystal â *Caught on Camera* y BBC yn sôn amdano, cafodd y stori sylw hefyd yn UK Defenders.

272 o ddarnau rhagweithiol/datganiadau i'r wasg.

129 datganiad.

157 o raglenni, cyfeiriadau a chyfweliadau yn canolbwytio ar Gymru.

Twf blynnyddol Facebook: cynnydd o **24.1%**



Ymddangosodd Arolygydd yr RSPCA David Milborrow ar *Crimewatch Live* ar BBC One, mewn ail apêl am dystion ar ôl i gath fach gael ei thaflu o ffenest car ar gylchfan ym Mhont-y-pŵl ym mis Mehefin 2019. Mae'r gyrrwr a ffilmiodd y digwyddiad o gamera

ei char wedi mabwysiadu'r gath fach, gan fynd ar y rhaglen gyda'r Arolygydd Milborrow. Cafwyd sylw yn y wasg yn y *Daily Mirror*, *The Independent*, *Mail Online*, *Wales Online* a'r *South Wales Argus* – ymysg eraill.

Why you should never leave a dog a...
Posted by **ITV Wales**
8,338 Views

This is why you should never leave your dog alone in a car on a hot day.
Our reporter did an experiment with the RSPCA Cymru to see how quickly a parked vehicle heats up. Just a few minutes was enough.
Read more: <http://bit.ly/2Ge9Vdl>

1 hr 24 min 4 sec 01

Rhoddodd yr RSPCA lond gwlad o gyngor lles i'r cyhoedd drwy'r cyfryngau yn 2019, gan gynnwys beth i'w wneud os dewch o hyd i forlo wedi'i anafu, cyngor ar dywydd poeth (megis rhybuddion Mae Cŵn yn Marw mewn Car Poeth), a negeseunon yn ymwneud â thân gwylt. Yn ystod cyfnodau tywydd poeth, roeddem yn frwd i ddefnyddio'r cyfryngau i gynghori pobl ar sut i gadw eu hanifeiliaid anwes yn gorboethi. Yn ogystal ag eitem arbennig ar ITV Cymru yn edrych ar ba mor bwysig yw peidio â chadw ci mewn car poeth, ymwelodd BBC Wales â Chanolfan Anifeiliaid Bryn-y-Maen yr RSPCA i drafod y rhagofalon ar waith i ofalu am anifeiliaid anwes.

Horse impales itself on fence after being scared by the fireworks

GRAPHIC CONTENT Harry the horse was found skewered on a post in Holywell after becoming startled by fireworks

Yn dilyn Noson Tân Gwyllt, cafwyd sylw eang yn dilyn achub ceffyl a oedd wedi mynd yn sownd mewn ffens/gwrych yn Nhreffynnon. Aeth dau o swyddogion yr RSPCA i'r digwyddiad, a thybiwyd bod y ceffyl wedi cael ei ddychryn gan dân gwylt. Bu sylw mawr i'r achos yn lleol, yn rhanbarthol a ledled y Deyrnas Unedig.

Roedd rhaglen BBC Wales X-Ray wedi cynnwys cyngor gan yr RSPCA ar gyfer perchnogion anifeiliaid anwes cyn y Nadolig. Cafodd Arolygydd yr RSPCA, Emma Smith, ei chyfweld gan Rachel Treadaway-Williams ynglych y pethau y dylid ac na ddylid eu gwneud yn ystod cyfnod y Nadolig.



HELPWCH NI A DEWCH YN RHAN

RHOWCH YN HAEL

Cefnogwch ein gwaith yn ystod pandemig y Coronafeirws drwy roi rhodd a rhannu ein hapêl brys. Ewch i: www.rspca.org.uk/getinvolved/donate/coronavirus

Gallwch ein cefnogi drwy roi rhodd gyson drwy ddebyd uniongyrchol. Mae hyn yn golygu y gallwn ddibynnu ar eich cefnogaeth a chynllunio yn fwy effeithiol, ewch i: www.rspca.org.uk/donate a gweld pam fod pob ceiniog yn cyfrif.

Dewch yn Noddwr yr RSPCA, ewch i: www.rspca.org.uk/sponsor

Chwaraewch Loteri Wythnosol yr RSPCA a chodi arian ar gyfer anifeiliaid ar yr un pryd, ewch i: www.rspca.org.uk/lottery

GNEWCH RYWBETH

Rhowch gartref neu maethwch anifail o un o'n canolfannau neu ganghennau, ewch i: www.rspca.org.uk/findapet

Gwirfoddolwch gyda ni, ewch i: www.rspca.org.uk/volunteer i weld rhai o'r cyfleoedd yr ydym yn reciriwtio iddynt ar hyn o bryd.

GADEWCH RODD I NI YN EICH EWYLLYS

Mae'r haelioni o adael rhodd yn eich ewyllys yn golygu y byddwch yn helpu i amddiffyn anifeiliaid rhag creulondeb am gyfnod hir i'r dyfodol. I gael copi am ddim o'r Canllaw Ewyllys, ewch i: www.rspca.org.uk/giftsinwills

YN EICH ARDAL

Mae canghennau lleol yr RSPCA wedi'u rheged gan ymddiriedolaethau gwirfoddol sy'n dylanwadu ar sut rydym yn gofalu am anifeiliaid ac yn atal creulondeb iddynt yn lleol. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch dod yn ymddiriedolwr cangen i'w chael yn: www.rspca.org.uk/branchtrustee

CODWCH ARIAN – CYMERWCH RAN MEWN DIGWYDDIAD NEU GWNEWCH RYWBETH EICH HUN

Boed chi am drefnu bore coffi neu redeg marathon, gallwn eich cefnogi. O reidio beic i drefnu cwis mewn tafarn, mae digonedd o ffyrdd y gallwch gymryd rhan, hyd yn oed o gysur eich cartref eich hun. I gael rhagor o wybodaeth am ein digwyddiadau a syniadau codi arian, ewch i: www.rspca.org.uk/getinvolved/fundraise neu gyrrwch e-bost atom i: fundraisers-support@rspca.org.uk

GWARIWCH A CHYNILWCH

Chwiliwch am label lles uwch RSPCA Assured ar gynnrych bwyd wrth siopa a bwyta allan, ewch i: www.rspcaassured.org.uk/where-to-buy/map i weld ble i siopa.

Prynwch yswiriant anifeiliaid anwes yr RSPCA – am bob polisi a werthir, mae 15 y cant o'r pris yn mynd yn syth i helpu anifeiliaid llai ffodus ledled Cymru a Lloegr. Ewch i: www.rspca.org.uk/petinsurance

Sefydlwch rodd drwy'r Gyflogres i roi rhodd reolaidd i ni yn syth o'ch cyflog. Gallwch gyfrannu cymaint neu gyn lleied ag y dymunwch a gallwch atal eich rhodd ar unrhyw adeg. Ewch i: www.rspca.org.uk/getinvolved/donate/monthly/payroll

Defnyddiwch Amazon Smile wrth brynu cynhyrchion Amazon – heb unrhyw gost ychwanegol i chi, bydd 0.5 y cant o bris pob cynrych cymwys rydych chi'n ei brynu yn cael ei roi i'r RSPCA. Ewch i: www.rspca.org.uk/getinvolved/amazonsmile

Prynwch nwyddau'r RSPCA a helpu i ddangos eich cefnogaeth mewn steil. Mae gennym amrywiaeth o eitemau mewn gwahanol liwiau a meintiau. Ewch i: www.rspca.org.uk/shoponline/shopanddonate

BYDDWCH YN GYMDEITHASOL

Dilynwch ni ar Facebook: www.facebook.com/RSPCAcymru

Dilynwch ni ar Twitter: [@RSPCAcymru](https://twitter.com/RSPCAcymru)

Dilynwch ni ar Instagram: [@RSPCA_cymru](https://www.instagram.com/RSPCA_cymru)

Gwyliwr ein ffilmiau ar: www.youtube.com/RSPCAcymru

Darllenwch y newyddion diweddaraf am les anifeiliaid yng Nghymru: news.rspca.org.uk/category/wales/

Mae eich rhoddion hael mewn amser, arian a chymorth yn golygu y gallwn gynllunio ymlaen llaw ac ystyried yn fanwl y ffordd orau o ddefnyddio ein hadnoddau er lles anifeiliaid.

YMGYRCHWCH DROSOM

Rydym yn ymgrychu i wneud y byd yn lle gwell i anifeiliaid. Gwnewch rywbeith a helpwch ni drwy fynd i: www.rspca.cymru/campaigns

EWCH YN WYRDD

Ewch ag unrhyw nwyddau nad ydych eu heisiau i un o 300+ o siopau elusen yr RSPCA, ewch i: www.rspca.org.uk/inyourarea i gael hyd i'ch siop agosaf.

Ailgylchwch gemwaith wedi torri ac nad ydych eu heisiau, papurau arian y wlad hon neu dramor, stampiau, ffonau symudol a theclynnau. Ffoniwch: 0800 633 5323 neu ewch i: www.recyclingforgoodcauses.org/rspca

YMUNWCH Â NI

I ymuno â'r RSPCA, ewch i: www.rspca.org.uk/joinus

Mae tanysgrifiad i'r cylchgrawn Animal Action yn ddelfrydol i bobl ifanc o dan 12 oed. Ewch i: www.rspca.org.uk/subscribe neu i bobl ifanc yn eu harddegau tanysgrifiwch i'r cylchgrawn Animal Life: www.rspca.org.uk/whatwedo/latest/publications/print

Mae Gwobrau Ffotograffwyr Ifanc yr RSPCA yn agored i unrhyw un sy'n 18 oed neu'n iau. Ewch i: www.rspca.org.uk/ypa i weld lluniau enillwyr y gorffennol a sut i ymgeisio yn 2020.

BWYDWCH EICH ANIFEILIAID ANWES

Prynnwch fwyd anifeiliaid anwes yr RSPCA sydd wedi'i gynllunio gan arbenigwyr ar gyfer eich cathod, cŵn, moch cwta a chwningod. Mae'r bwyd i gathod a chŵn yn 'gyflawn', sy'n golygu eu bod yn cynnwys popeth sydd ei angen ar eich anifeiliaid anwes i'w cadw'n iach. Ewch i: <https://shop.rspca.org.uk/>

Os ydych yn pryderu am les anifail, ffoniwch yr RSPCA ar:

0300 1234 999



Llun y clawr: RSPCA Cymru

Cymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid
6, Cae Gwyrdd, Parc Busnes Greenmeadow Spring, Caerdydd CF15 7AB
0300 1234 999 www.rspca.cymru www.politicalanimal.wales

 [@RSPCAcymru](https://facebook.com/RSPCAcymru)  [@RSPCAcymru](https://twitter.com/RSPCAcymru)
 [@RSPCA_cymru](https://youtube.com/RSPCAcymru) 

Mae'r RSPCA yn helpu anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr. Elusen gofrestredig rhif: 219099.
Dwyr roddion y cyhoedd yn unig y mae'r RSPCA yn bodoli.

Hawlfraint ©2020 RSPCA. Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu na defnyddio'r deunydd
hwn mewn unrhyw fodd o gwbl heb ganiatâd ysgrifenedig penodol yr RSPCA i wneud hybny.

Argraffwyd ar ddeunydd wedi'i ailgylchu 100% yn
defnyddio prosesau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd.